



# Awel y Coleg

Byw annibynnol gyda gofal yn Y Bala



Agoriad Swyddogol: Dydd Iau, 5ed o Fedi 2013

CYMDEITHAS  
TAI CLWYD



# Amserlen

Amser	
11:00	Gwesteion i ymgynnull yng nghyntedd Awel y Coleg
11:10	Croeso gan Merfyn Roberts, Cadeirydd Cymdeithas Tai Clwyd. Mr Roberts i ddweud ychydig eiriau ar ran y Gymdeithas.
11:15	Y Cyngorydd Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal, i ddweud ychydig eiriau ar ran Cyngor Gwynedd
11:25	Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas AC i agor y Cynllun yn swyddogol a dweud ychydig eiriau i gydnabod y digwyddiad.
11:35	Englyn gan y Prifardd Elwyn Edwards
11:40	Adloniant gan blant Ysgol Bro Tegid, Y Bala
12:00	Lluniaeth ysgafn. Gwesteion i fynd am daith o amgylch Awel y Coleg yng nghwmni'r staff.
13:00	Gorffen



## Awel y Coleg

Yn heddwch ei ddedwyddyd – a'i hafan,  
Ma'r gofal a'i wynfyd  
Yn gartref diddos hefyd,  
Yn ddi ail ei nawdd o hyd.



**Y Prifardd Elwyn Edwards**





## Cyflwyniad

---

Saif Awel y Coleg ar safle braf wrth droed Coleg y Bala. Mae ei leoliad cyfleus, sy'n agos at gyfleusterau canol y dref, yn golygu ei fod yn lle delfrydol i bobl hŷn fyw.

Bu'n ddatblygiad llwyddiannus iawn, a hynny oherwydd cydweithrediad arbennig o dda rhwng Aelodau a Swyddogion Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tai Clwyd a'r adeiladwyr.

Dyma'r cynllun tai Gofal Ychwanegol cyntaf i Wynedd.

Mae tai gofal ychwanegol yn golygu bod lefel y gofal a roddir i denantiaid yn gallu amrywio yn ôl eu hanghenion, gan gydnabod bod iechyd a chryfder pobl hŷn yn amrywio. Mae'n bwysig iawn hefyd fod gofal ychwanegol yn galluogi preswylwyr i fyw'n annibynnol. Mae'r holl elfennau hyn yn sicr i'w gweld yn amlwg yn Awel y Coleg.

Canlyniad partneriaeth effeithiol rhwng Tai Clwyd a Chyngor Gwynedd yw'r prosiect. Ond yr hyn â'i gwnaeth yn bosibl oedd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu arian grant.

Mae agoriad heddiw yn nodi carreg filltir bwysig ym maes tai i bobl hŷn. Mae integreiddio tai â gofal a chefnogaeth yn golygu y gall pobl hŷn Y Bala a'r cyffiniau fyw'n annibynnol, gydag ansawdd sy'n gosod safon newydd, yn ein barn ni. Rydym yn gobeithio y bydd tenantiaid Awel y Coleg yn gallu parhau yn weithgar ac annibynnol nid yn unig yn eu cartrefi ond o fewn eu cymuned.

Mae'n bleser gallu cadarnhau partneriaethau helathach yn ogystal, sef y cydweithrediad gyda Age Cymru Gwynedd a Môn gyda'i cynllun Heneiddio'n Dda yn ardal Penllyn. Mae un uned wedi ei neilltuo i sicrhau darpariaeth at anghenion gofal Canolraddol ac ysbaid i ardal Bala. Golyga hyn y bydd modd i drigolion yr ardal gael gofal yn eu cymuned i adfer ar ôl llawdriniaeth, neu rhoi ysbaid pan fo angen. Mae hyn yn ffrwyth partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Thai Clwyd.



# Y Ffeithiau

**Cost y Cynllun:** £5,323,574

**Grant Tai Cymdeithasol:** £3,641,961

**Gwaith Adeiladu:** Cychwyn: Tachwedd 2010

Cwblhau: Tachwedd 2012

**Nifer Unedau:** 30

23 x fflat 2 lofft

7 x fflat 1 lofft





## Tai Clwyd

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn gymdeithas dai elusennol a ffurfiwyd yn 1974 sy'n gweithredu ar draws ffiniau chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Ar hyn o bryd mae'n rheoli dros 1900 o eiddo.

Ychwanegwyd 241 o gartrefi newydd at ei stoc dai yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, ac yn ogystal ag Awel y Coleg, mae'n rheoli cynllun 21 uned Tai Gofal Ychwanegol yn Llys Awelon, Rhuthun.

Mae'r Gymdeithas yn darparu cartrefi fforddiadwy trwy nifer o gynlluniau megis rhenti canolraddol, ac mae'n aelod o fenter gyda thair cymdeithas dai arall, sydd wedi ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, i ddiwallu anghenion tai ar rent canolraddol, sef Partneriaeth Tai Cymru. Mae'r Gymdeithas yn ymwybodol o bwysicrwydd canfod dulliau arloesol i ddiwallu'r angen am dai yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Cred y Gymdeithas fod ganddi gyfrifoldeb ehangach i'r gymuned, yn ogystal â darparu tai a chynnig gwasanaethau o safon ragorol. Yn gynwysedig yn y gweithgareddau yma mae cefnogi gweithgareddau datblygu cymunedol, er enghraifft Canolfan Ieuenctid Dinbych, cynllun a fydd yn darparu tai â chefnogaeth ynghyd â chyfleon i bobl ifanc Dinbych gael mynediad i addysg a chyfleon am gyflogaeth.



CYMDEITHAS  
TAI CLWYD



# Rhanddeiliaid



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



**WYNN ROGERS CYF**  
SYRFEWYR SIARTREDIG ADEILADAU  
The Hollies, Stryd Y Dyffryn, Dinbych L11 6 3AP  
Ffôn: (01745) 812100 Ffacs: (01745) 816331  
E-bôst: [consul@wynn-rogers.co.uk](mailto:consul@wynn-rogers.co.uk)  
Gwefar: [www.wynn-rogers.co.uk](http://www.wynn-rogers.co.uk)





## Diolch

---

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad y llu bobl a'n cynorthwyodd i ddatblygu Awel y Coleg. Yn bwysicaf oll, cafodd Cyngor Gwynedd y weledigaeth ar gyfer tai i bobl hŷn yn y dyfodol a chysylltu â ni i ddatblygu'r prosiect, ac i sicrhau bod darpariaeth fydd er budd y gymuned.

Dim ond yn sgil derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yr oedd modd gwireddu'r prosiect. Wrth gwrs, mae prosiect o'r maint yma hefyd wedi galw am gyfraniad brwdfrydig amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y datblygwyr lleol K & C Group, sydd i gyd wedi cyfrannu at lwyddiant y cynllun.

Mae gan y penseiri, Wynn Rogers bob rheswm i fod yn falch o'r adeiladau a ddyluniwyd ganddynt. Mae ein Rheolwyr Prosiect, Metrics, hefyd wedi chwarae rhan bwysig. Ond y llysgenhadon gorau i Awel y Coleg yw'r tenantiaid a'u barn nhw sy'n cyfrif mewn gwirionedd. Mae nifer helaeth o'n tenantiaid yma heddiw.

Yn ychwanegol, rydym yn ddiolchgar iawn i'r Arlgwydd Dafydd Elis-Thomas AC, yr Aelod Cynulliad Lleol, am ddod i agor Awel y Coleg yn swyddogol.

Dymuniad Tai Clwyd ar gyfer Awel y Coleg yw delwedd o 'gartref cysurus'.

**Merfyn Roberts**  
**Cadeirydd Tai Clwyd**

